Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arweiniad atodol ar gyfer arolygu yn y Cyfnod Sylfaen

Mae'r arweiniad hwn yn egluro'r gofynion arolygu ac adrodd newydd yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer arolygwyr cofrestredig, contractwyr, ysgolion ac awdurdodau lleol.

Bydd yr arweiniad hwn yn cael ei roi ar waith o 1 Medi 2008.

Iechyd ar Waith – Cyfraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith/rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cyflwyniad

Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu Plant rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru yn dod yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer pob ysgol a gynhelir fel a ganlyn:

- Medi 2008 ar gyfer pob plentyn rhwng 3 a 5 oed*;
- Medi 2009 ar gyfer pob plentyn 5 a 6 oed; a
- Medi 2010 ar gyfer pob plentyn 6 a 7 oed.

*Bydd hefyd yn ofynnol i leoliadau sy'n darparu addysg roi'r Fframwaith ar waith yn 2008.

Bwriad yr arweiniad yw mynd i'r afael â materion arolygu sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith hwn.

Pwyntiau cyffredinol

Ym mhob arolygiad, rhaid i arolygwyr gynnwys datganiad am ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant o dan bump oed yn y Cyfnod Sylfaen. Rhaid i arolygwyr wneud un o'r datganiadau canlynol.

- Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen;
- Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed, ond mae tystiolaeth y gellir unioni'r gwendidau hyn cyn bo hir; neu
- Mae llawer o wendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd annigonol tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Dylai arolygwyr barhau i ddefnyddio un o'r datganiadau hyn ar gyfer adrodd ar y plant dan bump oed.

O fis Medi 2008, ni fydd hi bellach yn ofynnol i arolygwyr annibynnol y Cyfnod Sylfaen:

- adrodd ar safonau a chyflawniad ar gyfer plant meithrin a derbyn ar wahân yn yr adroddiadau er bod angen graddau ar wahân o hyd ar gyfer Athene. Fodd bynnag, lle mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y ddau grŵp oedran, dylid adrodd ar y rhain.

O fis Medi 2009 (plant Blwyddyn 1) a mis Medi 2010 (plant Blwyddyn 2), ni fydd hi bellach yn ofynnol i arolygwyr annibynnol:

- adrodd ar safonau a chyflawniad ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar wahân yn yr adroddiadau, er bod angen graddau ar wahân o hyd ar gyfer Athene. Er mwyn gwahaniaethu rhwng termau grwpiau oedran fel plant hŷn yn y Cyfnod Sylfaen, neu blant iau yn y Cyfnod Sylfaen, dylid defnyddio plant ar ddechrau'r Cyfnod/diwedd y Cyfnod. Dylid adrodd, fodd bynnag, am unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau oedran.

Dylai arolygwyr lunio barn gyffredinol ar safonau cyflawniad ar ddechrau'r bennod ar safonau yn y Cyfnod Sylfaen.

Nodi arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen

Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o gwestiynau y gellir eu defnyddio i helpu arolygwyr i lunio barnau am safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r cwestiynau yn hollgynhwysfawr, ac fel ym mhob arolygiad, dylid sicrhau mai adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yw'r man cychwyn ar gyfer arolygu a dylai godi materion sy'n ymwneud yn benodol â'r ysgol i'w harolygu.

Llenwi ffurflenni arfarnu gwersi a ffurflenni arfarnu cyffredinol

Dylai arolygwyr ddefnyddio ffurflen arfarnu gwers (FfAG) i gofnodi barnau am weithgareddau â ffocws y maent yn eu harsylwi. Wrth ddyfarnu'r radd ar gyfer dysgu, dylai'r radd hon gael ei llywio **yn unig** gan y safonau a gyflawnir yn y grŵp ffocws sy'n cael ei arsylwi. Gellir gwneud nodiadau eraill ar y FfAG sy'n ymwneud â gweithgareddau eraill sy'n digwydd yn ystod y sesiwn, er enghraifft, chwarae rhydd, ond ni ddylid ystyried y rhain wrth ddyfarnu graddau. Mewn sesiynau arsylwi hwy lle bydd mwy nag un grŵp ffocws yn cael eu harsylwi, efallai y bydd angen cofnodi'r rhain ar FfAGau ar wahân. Dylid cofnodi unrhyw weithgareddau ychwanegol ar ffurflen arfarnu cyffredinol (FfAC) ac, os yw'n briodol, graddio safonau'r plant. Dylid cofnodi nodiadau wrth siarad â phlant ac archwilio tystiolaeth ffotograffig, gwaith ysgrifenedig, arddangosiadau, ac ati, ar FfAG a'u graddio os yw'n briodol.

Bydd angen i arolygwyr ddefnyddio FfAGau a FfACau i lywio eu barnau ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Gan fod y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar fedrau, gall arolygwyr ddefnyddio'r FfAG i gofnodi medrau allweddol, medrau personol a medrau dysgu mewn meysydd dysgu.

Dylai'r radd a ddyfernir ar gyfer addysgu gynnwys y cyfraniad gan bob ymarferwr yn y dosbarth sy'n gweithio'n rheolaidd gyda'r plant ac ni ddylid ei dyfarnu ar gyfer cyfraniad yr athro dosbarth yn unig. Dylid rhoi adborth i'r athro dosbarth ar ôl pob gwers, yn ôl yr arfer. Bydd gwaith pob un o'r ymarferwyr yn llywio'r adborth cyffredinol i'r athro.

Lle bo modd, dylid rhoi rhywfaint o adborth i bob ymarferwr sy'n gweithio gyda phlant. Mae'n siwr ei bod yn well trefnu hyn fel rhan o adborth grŵp ar ddiwedd yr arolygiad.

Adrodd ar y saith cwestiwn allweddol

Dylai arolygwyr adrodd ar unrhyw nodweddion arbennig ar y ddarpariaeth, o dan y cwestiynau allweddol perthnasol. Er enghraifft, os yw ansawdd yr addysgu yn wahanol iawn yn y Cyfnod Sylfaen i weddill yr ysgol, dylai arolygwyr gyfeirio at hyn yn yr adroddiad. Gweler atodiad 1 am arweiniad ar arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen.

Cwblhau proffil Athene

O fis Medi 2008, bydd angen i arolygwyr gwblhau'r proffil ysgol (proffil darparwr) ar gyfer y saith cwestiwn allweddol yn unig. Ni fydd angen cwblhau proffil ar wahân ar gyfer plant dan bump oed ar gyfer y saith cwestiwn allweddol. Mewn arolygiadau safonol a llawn, bydd angen i arolygwyr gwblhau proffil Cyfnod Sylfaen ar wahân sy'n ymwneud â safonau mewn meysydd dysgu. Mewn arolygiadau byr, dylai arolygwyr gwblhau proffil y darparwr yn unig.

Templed adroddiad Adran 28

[1]O fis Medi 2008, bydd y templed ar gyfer adroddiad Adran 28 yn cael ei ddiwygio i gynnwys:

- y maes dysgu newydd, sef Datblygu'r Iaith Gymraeg; a
- lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ym maes dysgu datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn yr adroddiad, bydd Atodiad 3 yn parhau i gael ei ddefnyddio i gofnodi asesiad athro statudol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Nid oes gofyniad i gwblhau atodiad o'r fath ar gyfer ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, dylai arolygwyr sicrhau eu bod yn cyfeirio yn yr adroddiad ysgrifenedig at gyrhaeddiad plant ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o ran Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

[1] Bydd y templedi adroddiad ar gyfer lleoliadau hefyd yn cael eu diwygio i gynnwys y newidiadau hyn.

Gofynion adrodd

Dylai'r grid isod helpu arolygwyr i bennu'r hyn y mae angen ei arolygu ac y mae angen adrodd arno ym mhob blwyddyn ar gyfer pob math o arolygiad.

Arolygiad byr	Arolygiad safonol	Arolygiad llawn
Rhaid i arolygwyr barhau i adrodd ar ansawdd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant dan bump oed. Byddant yn defnyddio un yn unig o'r tri datganiad (cyfeiriwch at dudalen 1). Os cyfeirir yn yr adroddiad at wendidau mewn darpariaeth addysgol, dylid adlewyrchu'r rhain yn yr argymhellion.	Rhaid i arolygwyr barhau i adrodd ar ansawdd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant dan bump oed. Byddant yn defnyddio un yn unig o'r tri datganiad (cyfeiriwch at dudalen 1). Os cyfeirir yn yr adroddiad at wendidau mewn darpariaeth addysgol, dylid adlewyrchu'r rhain yn yr argymhellion.	Rhaid i arolygwyr barhau i adrodd ar ansawdd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant dan bump oed. Byddant yn defnyddio un yn unig o'r tri datganiad (cyfeiriwch at dudalen 1). Os cyfeirir yn yr adroddiad at wendidau mewn darpariaeth addysgol, dylid adlewyrchu'r rhain yn yr argymhellion.
Mae arolygwyr yn parhau i adrodd ar y saith cwestiwn allweddol mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen dim ond lle mae unrhyw nodweddion arbennig, e.e. os yw'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o dda, yn rhagorol neu'n wan.	Mae arolygwyr yn parhau i adrodd ar y saith cwestiwn allweddol mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen dim ond lle mae unrhyw nodweddion arbennig, e.e. os yw'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o dda, yn rhagorol neu'n wan.	Mae arolygwyr yn parhau i adrodd ar y saith cwestiwn allweddol mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen dim ond lle mae unrhyw nodweddion arbennig, e.e. os yw'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o dda, yn rhagorol neu'n wan.
Dylai arolygwyr barhau i roi sylwadau ar fedrau allweddol, personol a dysgu plant ar draws pob maes dysgu trwy gydol y cyfnod.	Dylai arolygwyr barhau i roi sylwadau ar fedrau allweddol, personol a dysgu plant ar draws pob maes dysgu trwy gydol y cyfnod.	Dylai arolygwyr barhau i roi sylwadau ar fedrau allweddol, personol a dysgu plant ar draws pob maes dysgu trwy gydol y cyfnod.
	O fis Medi 2008, os yw plant dan bump oed yn cael ei ddewis yn faes arolygu, dylai arolygwyr adrodd ar y safonau a gyflawnir gan y plant dan bump oed ym mhob un o'r saith maes dysgu. O fis Medi 2009, os yw plant dan bump oed yn	O fis Medi 2008, dylai arolygwyr adrodd ar y safonau a gyflawnir gan y plant dan bump oed ym mhob un o'r saith maes dysgu. Dylai arolygwyr barhau i adrodd ar safonau a darpariaeth yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2. O fis Medi 2009, dylai

	cael ei ddewis yn faes arolygu, yna bydd hyn yn cynnwys plant ym Mlwyddyn 1. Dim ond pedwar pwnc fydd yn cael eu harolygu ym mlwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2. Dylai arolygwyr adrodd ar y safonau a gyflawnir gan y plant dan bump oed a phlant Blwyddyn 1 ym mhob un o'r saith maes dysgu. Dylai arolygwyr barhau i adrodd ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ym Mlwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2 lle bo'n berthnasol.	arolygwyr adrodd ar y safonau a gyflawnir gan y plant dan bump oed a Blwyddyn 1 ym mhob un o'r saith maes dysgu. Dylai arolygwyr barhau i adrodd ar safonau a darpariaeth ym Mlwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2 lle bo'n berthnasol.
	O fis Medi 2008, lle mae ysgolion **peilot y Cyfnod Sylfaen** yn cael eu harolygu, dylai arolygwyr adrodd ar safonau a chynnydd plant rhwng 3 a 7 oed os yw plant dan bump oed yn cael ei ddewis yn faes arolygu. Bydd pedwar pwnc yn cael eu harolygu yng nghyfnod allweddol 2.	O fis Medi 2008, lle mae ysgolion **Peilot y Cyfnod Sylfaen** yn cael eu harolygu, dylai arolygwyr adrodd ar safonau a chynnydd plant rhwng 3 a 7 oed. Dylai arolygwyr barhau i adrodd ar safonau a darpariaeth yng nghyfnod allweddol 2.
	O fis Medi 2008, yn yr **ysgolion Dechrau'n Gynnar**, dylai arolygwyr adrodd ar safonau a chynnydd plant ar gyfer plant rhwng 3 a 6 oed os yw plant dan bump oed yn cael ei ddewis yn faes arolygu. Bydd pedwar pwnc yn cael eu harolygu ym Mlwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2. O 2009, bydd arolygwyr yn adrodd ar safonau a chynnydd plant rhwng 3 a 7 oed os yw plant dan	O fis Medi 2008, yn yr **ysgolion Dechrau'n Gynnar**, dylai arolygwyr adrodd ar safonau a chynnydd plant ar gyfer plant rhwng 3 a 6 oed. O 2009, bydd arolygwyr yn adrodd ar safonau a chynnydd plant rhwng 3 a 7 oed.

	bump oed yn cael ei ddewis yn faes arolygu. Bydd pedwar pwnc yn cael eu harolygu yng nghyfnod allweddol 2. O fis Medi 2009, ym mhob achos lle dewisir **addysg grefyddol** yn bwnc i'w arolygu ym Mlwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2, bydd yn cael ei arolygu fel pwnc ym Mlwyddyn 1 yn y Cyfnod Sylfaen (yn amodol ar ofynion arolygiadau enwadol ar wahân). Bydd angen mabwysiadu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen ac Ysgolion Dechrau'n Gynnar yn unol â'r hyn a ddisgrifir isod. O fis Medi 2008, yn ysgolion **peilot y Cyfnod Sylfaen,** lle dewisir **addysg grefyddol** yn bwnc i'w arolygu yng nghyfnod allweddol 2, bydd yn cael ei arolygu fel pwnc yn y Cyfnod Sylfaen (yn amodol ar ofynion arolygiadau enwadol ar wahân). O fis Medi 2008, mewn ysgolion **Dechrau'n Gynnar**, lle dewisir **addysg grefyddol** yn bwnc i'w arolygu ym Mlwyddyn 2 a chyfnod allweddol 2, bydd yn cael ei arolygu fel pwnc ar gyfer plant ym Mlwyddyn 1 yn 2008 a thrwy gydol y Cyfnod Sylfaen yn 2009 (yn amodol ar ofynion	Bydd **addysg grefyddol** yn cael ei harolygu fel pwnc ar gyfer plant ym Mlwyddyn 1 yn 2009 (yn amodol ar ofynion arolygiadau enwadol ar wahân). Bydd trefniadau eraill yn berthnasol i ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen ac ysgolion Dechrau'n Gynnar yn unol â'r hyn a ddisgrifir isod. Yn ysgolion **peilot y Cyfnod Sylfaen,** bydd **addysg grefyddol** yn cael ei harolygu fel pwnc yn y Cyfnod Sylfaen o fis Medi 2008 (yn amodol ar ofynion arolygiadau enwadol ar wahân). Mewn ysgolion **Dechrau'n Gynnar**, bydd **addysg grefyddol** yn cael ei harolygu fel pwnc ar gyfer plant ym Mlwyddyn 1 yn 2008 a thrwy gydol y Cyfnod Sylfaen yn 2009 (yn amodol ar ofynion arolygiadau enwadol ar wahân).

	arolygiadau enwadol ar wahân).	
Cwblhau'r proffil ysgol yn unig.	Cwblhau'r proffil ysgol a phroffil y Cyfnod Sylfaen.	Cwblhau'r proffil ysgol a phroffil y Cyfnod Sylfaen

Cyfarfodydd gyda llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr

Mae agendâu ar gyfer cyfarfodydd gyda rhieni a gofalwyr wedi cael eu haddasu i adlewyrchu gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Mae Atodiad 2 yn cynnwys enghreifftiau o'r agendâu newydd. Nid oes unrhyw newidiadau i'r holiadur rhieni.

Terminoleg

Sylwch wrth adrodd ar y Cyfnod Sylfaen y dylid defnyddio'r term 'plant' ac nid disgyblion wrth ddisgrifio safonau ac ansawdd darpariaeth ar gyfer plant Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Mae hefyd yn well defnyddio'r term 'ymarferwyr' yn hytrach na staff wrth ddisgrifio gwaith yr oedolion yn y dosbarth gan fod y term hwn yn gyson â'r term a ddefnyddir mewn deunyddiau arweiniad gan APADGOS ar hyn o bryd.

Atodiad 1

Arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen

Cwestiwn Allweddol 1

- A yw plant yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen?
- A ydynt yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu; a ydynt yn cydweithredu ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda?
- A yw'r plant yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau heriol sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu?
- A yw plant yn dysgwyr sy'n holi, gan chwilio am atebion, gwneud penderfyniadau a datrys problemau?
- A yw'r plant yn barod i fentro gwneud camgymeriadau oherwydd eu bod yn deall eu bod yn dysgu oddi wrthynt?
- A yw'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu yn unol â, neu'n well na disgwyliadau yn erbyn dangosyddion gwerth ychwanegol?
- A yw'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau yn unol â'u gallu?
- A yw plant abl yn ymdopi'n dda â gwaith sydd â lefel uchel o alw am y Cyfnod Sylfaen?
- A yw bechgyn a merched yn perfformio gystal ar draws pob maes dysgu?

Cwestiwn Allweddol 2

Addysgu

- A yw ansawdd yr addysgu yn cael effaith amlwg a chadarnhaol ar gynnydd plant a'r safonau y maent yn eu cyflawni?
- A yw'r gweithgareddau yn ddeniadol, yn ddatblygiadol briodol ac yn cynnwys her addas?
- A yw ymarferwyr yn trin popeth sy'n digwydd fel cyfle i'r plant ddysgu?
- A yw'r plant yn cael amser i ganolbwyntio a chwblhau tasgau heb ormod o ymyriadau?
- A oes cydbwysedd da rhwng sesiynau pan fydd ymarferwyr yn trefnu'r gweithgareddau ar gyfer unigolion, parau neu grwpiau bach (gweithgareddau â ffocws neu wedi'u targedu) a phan fydd plant yn gallu dewis eu gweithgareddau eu hunain (darpariaeth barhaus neu well)?
- A yw pob un o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda? A yw'r gweithgareddau â ffocws wedi'u strwythuro'n dda ac wedi'u cysylltu â dysgu blaenorol? A yw plant yn meistroli cysyniad cyn symud ymlaen i rywbeth newydd?
- A yw ymarferwyr yn arsylwi plant yn chwarae, yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phryd i ymyrryd a pha gwestiynau i'w gofyn neu ba adnoddau i'w hychwanegu/ tynnu ymaith os yw'r plant am elwa ar y profiadau?
- Sut caiff y plant eu rhoi mewn grwpiau? A yw hyn bob amser ar sail cyfeillgarwch, gallu, ac ati?
- A yw'r dysgu yn weithredol? A yw ymarferwyr yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i siarad, cwestiynu, herio a chyflwyno geirfa a syniadau newydd tra byddant yn cymryd rhan yn chwarae'r plant?

- A oes synnwyr o rannu cyfrifoldeb ymhlith ymarferwyr? A oes gwaith tîm da?
- Pa mor effeithiol yw'r addysgu a ddarperir gan staff cymorth?

Asesu

- A oes gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r modd y mae'r plant yn dysgu?
- A yw'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda? A yw pob un o'r ymarferwyr yn glir ynglŷn â beth yw'r camau nesaf ar gyfer y plant er mwyn iddynt allu cefnogi eu cynnydd?
- A yw'r prosesau asesu yn bwrpasol?
- A yw'r asesu yn seiliedig ar arsylwi plant yn eu gweithgareddau bob dydd?
- A yw'n cefnogi'r broses o nodi plant ag anghenion ychwanegol yn gynnar a, gyda chymorth rhieni/gofalwyr, yn arwain at ymyriad a chymorth cynnar priodol?
- Sut caiff cynnydd plant ei olrhain o leoliadau cyn-ysgol? Sut caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i ddatblygu continwwm dysgu?
- Pa ddefnydd a wneir o'r wybodaeth hon i arfarnu cynnydd a chyflawniad?
- Pa ddefnydd a wneir o wybodaeth gan rieni/gofalwyr?
- A oes gan yr ysgol broses o asesu cychwynnol? Os oes, sut defnyddir hwn?
- Sut mae'r gwaith/tasgau yn cael eu gwahaniaethu i ddarparu ar gyfer cyfnod datblygu yn hytrach nag oedran?
- A yw'r plant yn cael eu cynnwys yn y broses o asesu eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain fel eu bod yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella yn raddol?
- Sut mae rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn asesu eu plant?

Cwestiwn Allweddol 3

- A yw'r cynllunio yn seiliedig ar ddull ysgol gyfan ac a yw pob un o'r ymarferwyr yn cael eu cynnwys yn y broses?
- A yw'r cynllunio yn bwrpasol heb fod yn or-fiwrocrataidd?
- A yw'r ymarferwyr yn cynllunio amcanion ar gyfer y dyfodol, sy'n gwricwlaidd ac ar gyfer datblygiad personol plant, ar ôl myfyrio ar ddysgu blaenorol y plant?
- A yw'r cynllunio yn dangos y dysgu arfaethedig ar gyfer tasgau â ffocws a hefyd ar gyfer darpariaeth barhaus a darpariaeth well? Os yw'r cynllunio yn newid, a yw ymarferwyr yn gallu esbonio pam?
- A yw'r cynllunio yn hyblyg ac yn agored? A yw'r cynllunio yn ddigon hyblyg i wneud defnydd llawn o'r amgylchedd tu mewn a'r tu allan i wneud y gorau o ddysgu plant?
- A yw'r ymarferwyr wedi cynllunio'n dda i wneud yn siwr bod yr amgylchedd dysgu yn annog gweithgareddau strwythuredig a dewis rhydd?
- A yw'r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda; a ydynt yn gwybod beth yw eu diddordebau a'u cyfnod datblygu er mwyn iddynt allu creu amgylchedd ysgogol sy'n rhoi cyfleoedd i blant wneud cynnydd a datblygu eu medrau a'u gwybodaeth?
- A yw'r cynllunio yn cael ei lywio gan ganlyniad yr asesu er mwyn cefnogi parhad a dilyniant yn natblygiad plant?
- A yw'r cynllunio tymor byr yn cynnwys cynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan yr oedolion/plentyn?
- A oes cynllunio ar gyfer gwneud defnydd o'r awyr agored?

- A yw meysydd dysgu yn ategu ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd i lunio cwricwlwm priodol?
- A yw cynllunio tymor hwy yn dangos y cydbwysedd rhwng pob un o'r saith maes dysgu dros gyfnod?
- A yw plant derbyn yn cyd-addoli bob dydd?

Cwestiwn Allweddol 4

- Pa gysylltiadau sydd gan yr ysgol â'r cylch chwarae, y grwpiau Rhiant a Phlentyn, y grwpiau Dechrau'n Deg lleol, ac ati? Sut mae'r cysylltiadau hyn yn meithrin y continwwm dysgu? Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer trosglwyddo o'r cartref/lleoliadau? Pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn?
- Pa mor wybodus yw'r rhieni/gofalwyr am y Cyfnod Sylfaen? A ymgynghorwyd â nhw ynglŷn ag unrhyw agwedd arno?
- A oes gweithdrefnau clir, wedi'u cofnodi'n dda sy'n cyfrannu at les y plant; er enghraifft, os yw plant yn chwarae tu allan yn rheolaidd, a ydynt wedi gwisgo'n briodol? A oes cysgod ar gael yn ystod yr haf; a yw'r plant yn gwisgo eli haul; a oes ganddynt hetiau priodol, ac ati?
- Os yw'r plant yn mynd oddi ar y safle, a gynhaliwyd yr asesiadau risg angenrheidiol?
- Os yw plant yn mynd i Ysgol Goedwig oddi ar y safle, a oes gan yr Arweinydd Coedwig gymwysterau priodol?
- A yw pob un o'r staff newydd wedi cael gwiriad y SCT? A ydynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant?
- Pa mor effeithiol yw'r ysgol yn cefnogi plant ag anghenion arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig gan fod y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar roi profiadau i blant sy'n bodloni eu hanghenion datblygu ac nid eu hoedran cronolegol? A yw pob un o'r adnoddau, y grwpiau plant, cymorth ymarferwyr, ac ati, i gyd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r plant hyn?

Cwestiwn Allweddol 5

- A oes gan yr ysgol gynllun clir ar gyfer datblygu'r Cyfnod Sylfaen?
- A yw pob un o'r ymarferwyr sy'n gysylltiedig â'r llywodraethwyr wedi cytuno ar hwn? A yw'r rhieni yn ymwybodol o'r cynllun hwn?
- A yw ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyflwyno'r cynllun?
- A oes graddfeydd amser a meini prawf llwyddiant clir ar gyfer mesur cynnydd? A yw'r meini prawf llwyddiant yn ansoddol ac yn feintiol?
- Pryd mae cynnydd yn cael ei adolygu a chan bwy?
- Sut mae systemau rheoli perfformiad yn cyfrannu at osod targedau ysgol gyfan a thargedau staff unigol sy'n llywio cynlluniau datblygu?
- A yw ymarferwyr yn cael cyfleoedd i ddysgu ffyrdd newydd o weithio, defnyddio tîm ac ati?
- A yw'r ysgol wedi buddsoddi mewn hyfforddiant perthnasol a defnyddiol ar gyfer pob ymarferwr er mwyn eu galluogi i fodloni eu targedau a chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol?
- Pa mor dda y mae'r staff newydd yn cael eu cefnogi wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen?
- A oes polisïau ac arferion sy'n sicrhau bod pob un o'r staff a'r plant yn cael mynediad cyfartal at hyfforddiant a gweithgareddau?

- A oes gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â sefydliadau allanol sy'n hyrwyddo/ cefnogi datblygiad y Cyfnod Sylfaen?
- A yw'r llywodraethwyr yn ymwybodol o nodau ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen?
- A ydynt wedi cael eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer gweithredu a datblygu?
- A yw'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud mewn perthynas â thargedau cytûn?
- A yw'r llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r fframwaith statudol?

Cwestiwn Allweddol 6

- Sut mae arweinwyr a rheolwyr yn bwriadu arfarnu'r Cyfnod Sylfaen?
- A yw'r adolygiadau cynnydd yn seiledig ar brofiad uniongyrchol?
- A yw'r staff yn myfyrio yn feirniadol ar yr hyn y maent wedi'i wneud ac yn ystyried sut y gellid gwella hyn?
- A yw'r data yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol fel ffordd o arfarnu cynnydd plant?
- A yw hunanarfarnu yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i osod targedau ar gyfer datblygu yn y dyfodol?
- A yw targedau yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau datblygu?
- A yw arweinwyr a rheolwyr yn gallu darparu tystiolaeth glir o sut mae prosesau hunanarfarnu wedi arwain at welliannau o ran cyflwyno a safonau yn y Cyfnod Sylfaen?
- A yw arweinwyr a rheolwyr wedi neilltuo adnoddau i gefnogi targedau ar gyfer datblygu yn y Cyfnod Sylfaen?
- Pa gynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth fodloni materion allweddol o'r arolygiad diwethaf mewn perthynas â phlant dan bump oed a chyfnod allweddol 1?

Cwestiwn Allweddol 7

- [2]A oes gan yr ymarferwyr gymwysterau addas i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen?
- A yw pob un o'r ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac a ydynt yn gweithio'n dda fel tîm?
- A yw'r adeiladau yn ddeniadol ac wedi'u trefnu'n dda?
- A oes ystod dda o lyfrau ac offer er mwyn galluogi plant i arbrofi, gwneud dewisiadau a dod yn ddysgwyr annibynnol?
- A oes lle chwarae diogel y tu allan sy'n darparu ystod dda o gyfleoedd i ddatblygu medrau echddygol bras plant?
- A oes lle diogel y tu allan sy'n darparu ystod dda o gyfleoedd i ddatblygu medrau plant ar draws pob maes dysgu?
- A wneir defnydd da o'r ardal leol i gefnogi dysgu gweithredol?
- A yw'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau ac ymwelwyr i ddatblygu dysgu'r plant?
- A oes unrhyw nodweddion o ran yr adeiladau sy'n lleihau ansawdd a safonau?
- A yw ymarferwyr yn trefnu bod yr adnoddau ar gael yn hawdd i'r plant?

[2] Atgoffir arolygwyr nad yw'r gymhareb staffio 1:8 yn ofyniad statudol ac nad yw Estyn yn gofyn am adroddiad ar gydymffurfio â'r gymhareb.

Atodiad 2

CYFARFOD CYN-AROLYGIAD YR AROLYGYDD COFRESTREDIG GYDA'R CORFF LLYWODRAETHOL

AGENDA

1 Cyflwyniad yr arolygydd cofrestredig
[Dylai hwn amlinellu diben y cyfarfod, sut bydd yr arolygiad yn cael ei gynnal, beth fydd yr adroddiad yn ei gynnwys a phryd y bydd yn cael ei gyhoeddi.]

2 Trafodaeth

Bydd yr arolygydd cofrestredig yn gofyn am wybodaeth am yr eitemau canlynol:

- rôl y llywodraethwyr mewn perthynas â phob un o'r cwestiynau allweddol;
- rôl y llywodraethwyr yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2;
- eu rôl yn hunanarfarniad yr ysgol ac unrhyw gynllun dilynol;
- eu rôl wrth baratoi'r adroddiad hunanarfarnu; a'u
- hymateb i unrhyw faterion neu ragdybiaethau cynnar y mae'r arolygydd cofrestredig wedi'u nodi o'r adroddiad.

3 Materion eraill y mae'r arolygydd cofrestredig yn dymuno eu codi yng ngoleuni'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol

4 Materion eraill y mae'r llywodraethwyr yn dymuno eu codi, gwybodaeth y maent yn dymuno ei chyfleu a phryderon y maent yn dymuno eu mynegi, gan gynnwys sôn am unrhyw anawsterau penodol sy'n wynebu'r ysgol

CYFARFOD AR GYFER RHIENI/GOFALWYR

ENW'R YSGOL:	
Dyddiad y cyfarfod:	**Amser:**

A G E N D A

1 Cyflwyniad gan yr arolygydd cofrestredig

2 Trafod y testunau canlynol:

- safonau gwaith a chynnydd;
- ymddygiad a phresenoldeb plant;
- agweddau a gwerthoedd y mae'r ysgol yn eu hyrwyddo;
- ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol (gan gynnwys gwaith cartref);
- y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael i'r plant;
- y graddau y mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- y wybodaeth y mae'r ysgol yn ei rhoi i rieni/gofalwyr, gan gynnwys adroddiadau;
- rhan y rhieni/gofalwyr a'r gymuned ym mywyd yr ysgol;
- pa mor wybodus yw'r rhieni/gofalwyr am y Cyfnod Sylfaen a newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2;
- y sylw y mae'r ysgol yn ei roi i awgrymiadau a chwynion

3 Unrhyw faterion eraill y mae'r rhieni/gofalwyr yn dymuno eu codi